

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd A J Williams

Ward: Coety Uchaf

Plaid: Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Coety Uchaf** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 98 ymholiad gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor yn ogystal â gyda sefydliadau eraill a nifer fawr o ddatblygwyr. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â materion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau, gan gynnwys Cwrs Arweinyddiaeth a ddarparwyd gan CLILC, sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddefnyddio'r ddolen hon.

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Ar wahân i gyflwyno atgyfeiriadau trwy BCBC, rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd misol gyda Persimmon ac mae gennyf daenlen waith o faterion yr wyf yn eu codi'n barhaus gyda nhw. Rwyf hefyd yn cyflwyno cyfeiriadau i Lanmoor a Taylor Wimpey. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) lleol i drafod materion.

Rwy'n delio â nifer fawr o ymholiadau cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â negeseuon e-bost, galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb â phreswylwyr. Rwyf hefyd yn cysylltu â'r ysbyty a'r carchar ynghylch unrhyw faterion. Rwyf wedi bod yn gweithio gydag eraill i wthio am lwybr troed ar Heol Spencer, gostwng y terfyn cyflymder dros y comin, gwthio i gwblhau'r parc ar Drem y Castell, gweithio gyda Persimmon i gymryd drosodd eu parciau a'u meysydd chwarae, cyfarfod gyda swyddogion i greu llwybrau cerdded diogel, gweithio i symud yr estyniad i Ysgol Gynradd Coety yn ei flaen, gweithio gyda thrigolion i wella diogelwch ar y ffyrdd yn Hendre, gweithio gyda datblygwyr sydd am ddod â siopau a chyflogaeth i Coety Uchaf, adolygu ceisiadau cynllunio a chefnogi trigolion a phobl leol busnes gyda'u cynlluniau yn ogystal â llawer mwy.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Dros y 12 mis diwethaf bûm yn gynrychiolydd BCBC ar fwrdd Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal ag aelod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol cyn iddo newid ei enw i Llais. Rwyf bellach yn aelod cymunedol o Llais. Rwyf wedi mynychu wardiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru a Glanrhyd yn ogystal â chyfarfodydd ardal leol. Rwy'n gynrychiolydd BCBC ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cwm Taf Morgannwg ac yn mynychu cyfarfodydd misol. Rwyf hefyd wedi bod yn gynrychiolydd ar y pwyllgorau Cydraddoldeb a Rhianta Corfforaethol.

Fel arweinydd grŵp Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr, rwy'n mynychu cyfarfodydd arweinwyr grŵp, yn cyfarfod yn fisol â'r Prif Weithredwr ac yn mynychu nifer o gyfarfodydd/gweithgorau eraill fel cynrychiolydd fy ngrŵp.

Rwy'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Coety Uchaf ac yn aelod o'r gweithgor trosglwyddo asedau sy'n cyfarfod â BCBC a grwpiau eraill fel CBDC gyda'r bwriad o drosglwyddo'r parciau/meysydd chwaraeon yng Nghoety Uchaf yn ogystal â'r ganolfan gymunedol.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda mudiad Y Cerddwyr ar lwybrau at les ac wedi helpu i blannu 400 o goed yng Nghoety yn ogystal â blodau gwylt.

Rwyf hefyd wedi helpu i drefnu partiön stryd yn y gymuned ar gyfer y Coroni a Jiwbilf'r Frenhines.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n llywodraethwr AALI ar gyfer Ysgol Gynradd Coety ac Ysgol Gyfun Brynteg ac yn Gadeirydd Llywodraethwyr Coety. Rwy'n mynychu Coety yn rheolaidd gan gefnogi'r plant. Rwyf hefyd wedi cysylltu ag Ysgol Gynradd Litchard gyda chynnig o gymorth.

Rwyf wedi cefnogi nifer o grwpiau cymunedol/chwaraeon mewn digwyddiadau codi arian megis coginio byrgyrs mewn twrnameintiau rygbi ac rwy'n trefnu Jam yn y Castell bob blwyddyn i godi arian at achosion da lleol.

Yn dilyn y Rhyfel yn Wcráin croesawais deulu o Wcráin i'm cartref am 6 mis nes iddynt allu symud ymlaen ac rwyf wedi cefnogi ffoaduriaid o Wcráin trwy godi arian ar gyfer anrhegion Nadolig.

Y Cynghorydd A J Williams:

Dyddiad: 14 Mehefin 2023